**Cofnodion o Cyfarfod Blynyddol Cyngor Cymuned Llangeitho a gynhelir ar nos Lun 7 Rhagfyr 2020 arlein, trwy zoom am 8 o'r gloch**
***Minutes of Llangeitho Community Council Annual General Meeting held on Monday, 7 December 2020, online through Zoom at 8pm***

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod blynyddol.

**Presennol*/Present***
Cyng Gwenfair Owen (Gadair/*Chair*), Daniel Thomas, Rhian Turner, Gwilym Evans, John Evans, Eirian Jones a Cyng/*Cllr* Rhodri Evans.

**Ymddiheuriadau*/Apologies*** – Cyng/*Cllr* Paul Rooke & Cyng/*Cllr* Gerwyn Ebenezer.

**Cyfrifon Blynyddol / *Annual Accounts*** – Cylchredwyd copi o'r cyfrifon a oedd wedi'u gymeradwyo gan yr archwiliwr mewnol a'i hanfon ymlaen i'r archwilwyr allanol, ond soniwyd nad oeddynt wedi'u dychwelyd o'r archwilwyr allanol hyd yma. Cytunwyd fod y broses o'i cymeradwyo wedi'u ddilyn yn gywir yn ystod yr amser clo cyntaf. gan Cyng Daniel Thomas a Cyng Gwenfair Owen.

**Ethol Cadeirydd / *Appointment of Chairperson***
Enwebwyd Cyng Daniel Thomas, ar gynnig Cyng Gwilym Evans ac eiliwyd gan Cyng Eirian Jones
Diolchwyd i Cyng Gwenfair Owen am ei gwaith dros cyfnod anodd ac ansicr iawn a derbyniwyd Cyng Daniel Thomas y swydd fel Cadeirydd a chymerwyd y gadair am weddill y cyfarfod.

**Ethol Is-Gadeirydd / *Appointment of Vice-Chairperson***
Enwebwyd John Evans ar gynnig Cyng Daniel Thomas ac eiliwyd gan Cyng Rhian Turner.

**Ethol Archwiliwr Mewnol / *Appointment of Internal Auditor***
Enwebwyd Mr Gareth Jones yn ôl y drefn arferol.

**Costau a Chyflog y Clerc / *Clerk's expenses & pay***
Costau'r Clerc o Mai 2019 hyd Rhagfyr 2020 £157.98
Yn ôl y drefn blynyddol codwyd cyflog y clerc 5% i £63.81 ac yn £1,340.06 y flwyddyn

Cytunwd i hyn ar gynnig Cyng Gwenfair Owen ac eiliwyd gan Cyng John Evans.

**Datgan Diddordeb*/Declaration of Interest*** – Neb / *No one*

**Adroddiad yr Heddlu / *Police report***
Trafodwyd y broblemau o loriau mawr yn cael trafferth i deithio lawr a lan rhiw Gaerlwyd yn Llwynpiod, gofynnir i'r Heddlu ynghyd a Cyng Rhodri Evans i drefnu cyfarfod yn y fan a'r lle i drafod ymhellach efo'r heddlu ac aelodau'r Cyngor Si. Soniwyd fod yna nifer o loriau mawr yn defnyddio'r ffordd yma o deithio i osgoi teithio nol i Dregaron, ac mi fi lori mawr yn methu dod fynny'r rhiw yma heddiw.

**Cofnodion y cyfarfod diwethaf/*Minutes of previous meeting***
Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod diwethaf ar gynnig Cyng John Evans ac eiliwyd gan Cyng Gwenfair Owen.

**Materion yn codi o'r cofnodion/*Matters arising from minutes***

- Crwbin Quarries wedi cwrdd a'r Cadeirydd, Is-gadeirydd a'r Clerc yn y fan a'r lle a derbyniwyd pris newydd ganddo i wneud gwaith oddi amgylch yr hen ffynnon/milwr ar y cylchfan, derbyniwyd pris newydd ganddo a oedd yn £370 yn fwy ac nawr yn £2,220 + TAW. Clerc i gysylltu a CADW i weld a fyddant yn fodlon talu am y pris newydd. Ni dderbynnir unrhyw ymateb a oedd yna orchymyn cadw ar y goeden ywen, Cyng Rhodri Evans i ddilyn lan.
- Derbyniwyd e-bost oddi wrth Simon Bray i gadarnhau bod y fflach-oleuadau melyn wrth yr Ysgol yn cael ei rhaglenni cyn bo hir. Gan nad oedd gan yr Awdurdod bwerau i monitro'r sefyllfa parcio a throi ar y gyffordd, awgrymwyd mae mater i'r heddlu oedd hyn. Gwahoddir ceisiadau gwaharddiadau parcio ychwanegol neu cais i ymestyn y llinellau melyn dwbl presennol i law'r Cyngor sir i ddodi yn y cynllun i'w hystyried yn 2023-24.

- Cyng Gwenfair Owen wedi darllen drwy contract BT a'r cynllun mabwysiadu'r ciosg yn Rhydypandy ac yn hapus efo'r cynnwys, Clerc i gysylltu a Mandy Bird, BTPayphone i ofyn iddi gadanrhau a yw'r ciosg wedi'u leoli ar ddaear breifat neu ddaear cyhoeddus.
- Cyng Gwilym Evans yn cadarnhau nad oedd yna arwydd ffordd gil ar ben lôn Pant yr Esgair, a oedd yn mynd lawr ffordd Lluest, Rhydcerrig, Pencraig Fach, Tyngwndwn a Ochor Esgair ym Mhenuwch.
- Derbyniwyd cadarnhad trwy lawr Cyng Rhodri Evans bod y sweeper yn mynd i ddod allan i'r gymuned wedi i'r dail orffen cwympo.
- Cyng Gwenfair Owen yn cadarnhau bod hi wedi trefnu arddangos poster perthnasol yn y parc chwarae.

**Cyfrifon/*Accounts***

- Dwr Cymru £15.53
- Brian Bulman £250.00
- Royal British Legion – Dorch £25.00
- Cyflog y Clerc (Tachwedd 2020) £106.36

Cynnig: Cyng Gwilym Evans Eiliwyd: Cyng John Evans

**Praesept 2021-22 *Precept***

Trafodwyd a chytunwyd i gadw'r praesept ar £5,500 am 2021-22 ar gynnig Cyng Gerwyn Ebenezer ac eiliwyd gan Cyng John Evans.

**Cyngor Sir Ceredigion *County Council***

Derbyniwyd y ceisiadau cynllunio isod:-

- Dargyfeirio arfaethedig i Lwybr Ceffyl 36/24 Glangors Llangeitho/*Proposed diversion of Bridleway 36/24 Glangors Llangeitho* – Dim gwrthwynebiad / *No Objection*
- S Owen & Miss E Rowbotham, Land at Tynant, Tynreithyn, Tregaron – Proposed animal housing shed to include installation of vehicular access – Dim gwrthwynebiad / *No Objection*
- Naomi Mudie, Tyncelyn Fields, Llangeitho, SY25 6QL – Erection of storage shed – Consern gan y Cynghorwyr a oes ganddynt gais cynllunio wedi'u gytuno i'r garafan sydd ar y ddaear yn barod.

**Un Llais Cymru / *One Voice Wales***

Dim i'w drafod / *Nothing to discuss*

**Gohebiaeth/*Correspondence***

- Cylchredwyd trwy e-bost holiadur a dderbyniwyd oddi wrth Bwrdd Iechyd Prifysgol a gofynnir i'r Cynghorwyr i'w gwblhau a'i ddychwelyd ar-lein.

**Unrhyw Fater Arall/*Any Other Business***

- Angen gwasanaeth y sweeper lan am Bronaeron.
- Soniwyd bod yna grant arall ar fin dod allan i gefnogi busnesau sy'n dioddef o effaith y pandemic.
- Prosiect Cylch Caron, Tregaron ddim yn mynd ymlaen o dan amodau gwreiddiol y cynllun.

**Dyddiad a Lleoliad y cyfarfod nesaf/*Date & location of next meeting***

Cynhelir y Cyfarfod nesaf ar nos Lun 1af o Chwefror 2021 am 8 o'r gloch trwy Zoom.